INSC027

Hyfforddi staff glanhau

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer goruchwylwyr glanhau. Mae'n ymwneud â rhoi'r hyfforddiant perthnasol a diweddaru eich staff glanhau. Mae'n ymwneud ag asesu anghenion hyfforddi gweithwyr a'u hyfforddi hyd at safonau eich sefydliad. Mae hefyd yn ymwneud â rhoi adborth i unigolion ar eu cynnydd a'u cyflawniadau.

Mae'r safon yn cwmpasu'r canlynol:

1. Asesu anghenion hyfforddi eich gweithwyr
2. Hyfforddi gweithwyr hyd at safonau gofynnol o ran ansawdd a pherfformiad
3. Rhoi adborth ar gynnydd a pherfformiad gweithwyr

Gallai eich gweithgareddau dyddiol nodweddiadol ar gyfer yr uned hon gynnwys:

1. Asesu sgiliau unigol eich gweithwyr
2. Nodi anghenion hyfforddi o fewn cwmpas eich cyfrifoldeb
3. Nodi'r hyn y dylai gweithwyr ei ddysgu
4. Gweithredu hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio yn eich maes cyfrifoldeb.5. Sicrhau bod staff yn gallu cymhwyso'r sgiliau newydd
6. Rhoi cyfarwyddyd yn y gwaith i weithwyr a goruchwylio eu gwaith
7. Asesu cynnydd gweithwyr wrth gaffael a chymhwyso sgiliau newydd
8. Rhoi adborth i weithwyr ar eu cynnydd a'u cyflawniadau
9. Cadw cofnodion hyfforddiant
10. Cofnodi cynnydd unigol gweithwyr.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Asesu anghenion hyfforddi eich gweithwyr

1. sefydlu perthynas waith gynhyrchiol gyda'ch staff glanhau
2. asesu sgiliau a phrofiad gwaith blaenorol gweithwyr newydd
3. nodi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen gan eich gweithwyr i gyflawni safonau perfformiad ansawdd
4. nodi'r lefelau gwybodaeth am weithdrefnau iechyd a diogelwch a allai fod eu hangen ar eich gweithwyr
5. pennu faint o oruchwyliaeth fydd eu hangen ar weithwyr wrth iddynt gael eu hyfforddi
6. hysbysu'r aelod staff perthnasol am eich asesiad o'u hanghenion hyfforddi

Hyfforddi gweithwyr hyd at safonau gofynnol o ran ansawdd a pherfformiad

1. paratoi rhaglen hyfforddi er mwyn diwallu anghenion hyfforddi eich gweithwyr
2. esbonio'r hyn a ddisgwylir gan staff glanhau
3. rhoi'r wybodaeth a'r cyfarwyddiadau gofynnol i weithwyr
4. arddangos arferion gwaith gorau i ategu'r dysgu
5. dangos sut y gweithredir cyfarpar drwy ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. cefnogi staff glanhau wrth ymarfer eu sgiliau o dan amodau gwaith diogel
7. gofyn am y cymorth hyfforddi gan yr aelod staff perthnasol os yw eich gwybodaeth a'ch sgiliau y tu allan i'r cwmpas gofynnol
8. monitro cynnydd gweithredwyr glanhau a'u gallu i ymdopi â gofynion eu gwaith a'r amgylchedd gwaith
9. cofnodi manylion gweithgareddau hyfforddi a chynnydd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

Rhoi adborth ar gynnydd a pherfformiad gweithwyr

1. rhoi cyfleoedd i weithwyr asesu eu perfformiad eu hunain ar wahanol gamau o'u hyfforddiant
2. rhoi adborth i'ch gweithwyr ar eu cynnydd a'u perfformiad
3. nodi'r camau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion hyfforddi gweithwyr

4. rhoi gwybod am gynnydd gweithwyr
5. nodi'r rhesymau dros amrywiadau mewn cynnydd unigolion
6. awgrymu atebion pan mae cynnydd gweithiwr yn arafach neu'n gyflymach na'r disgwyl

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Asesu anghenion hyfforddi eich gweithwyr

1. y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni safonau ansawdd a pherfformiad
2. y risgiau iechyd a diogelwch sy'n codi yn eich maes cyfrifoldeb a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer ymdrin â'r rhain
3. cwmpas eich cyfrifoldebau ar gyfer asesu anghenion hyfforddi
4. sut i nodi'r anghenion hyfforddi yn dibynnu ar brofiad blaenorol y gweithiwr
5. y gweithdrefnau rhoi gwybod ar gyfer asesu anghenion hyfforddi

Hyfforddi gweithwyr hyd at safonau gofynnol o ran ansawdd a pherfformiad

1. cwmpas eich cyfrifoldebau ar gyfer hyfforddi gweithwyr glanhau
2. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer hyfforddi staff glanhau
3. y rhaglen hyfforddi ddatblygedig ar gyfer staff glanhau
4. sut i annog gweithwyr i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd
5. sut i ddangos arferion gwaith gorau a sut i weithredu cyfarpar i staff
6. y technegau perthnasol ar gyfer dangos y dulliau glanhau a sut i weithredu cyfarpar yn dibynnu ar anghenion y gweithiwr
7. yr anogaeth i gwestiynu'r technegau a ddangosir
8. y mathau o gymorth sy'n galluogi pobl i ymarfer y sgiliau maent newydd eu caffael
9. y risgiau iechyd a diogelwch sy'n codi yn eich maes cyfrifoldeb a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer ymdrin â'r rhain

Rhoi adborth ar gynnydd a pherfformiad gweithwyr

1. y technegau perthnasol ar gyfer hunanasesiadau gweithwyr ar wahanol gamau o'u hyfforddiant
2. sut i roi adborth i gweithwyr ar eu cynnydd a'u perfformiad
3. y camau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion hyfforddi gweithwyr
4. y mathau o anawsterau a allai fod gan gweithwyr wrth wneud cynnydd
5. nodi'r rhesymau dros amrywiadau mewn cynnydd unigolion
6. i bwy mae angen rhoi gwybod am fanylion cynnydd gweithwyr

INSC027

Hyfforddi staff glanhau

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTC313
Galwedigaethau perthnasol	Menter manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaeth; Galwedigaethau Elfennol; Galwedigaethau Glanhau Elfennol
Cyfres/Set	Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi
Geiriau Allweddol	hyfforddi, glanhau, staff, diweddaru, asesu, anghenion, safonau, trefniadaeth, adborth, cynnydd, cyflawniadau